


# Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol

**Dyddiad yr adolygwyd gan y Corff Llywodraethol:** 26 Mawrth 2020

Llofnod y Cadeirydd: ____________________________________________

**Dyddiad yr adolygwyd gan y Corff Llywodraethol:**

Llofnod y Cadeirydd: ____________________________________________

**Dyddiad yr adolygwyd gan y Corff Llywodraethol:**

Llofnod y Cadeirydd: ____________________________________________

# Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol

## Nodau ac amcanion

### Nodau

- Sicrhau Addysg o safon uchel o fewn cwricwlwm eang, cytbwys, perthnasol ac addas er mwyn rhoi pob cyfle i ddisgyblion gyrraedd eu llawn botensial a gwella hunan ddelwedd.
- Creu amgylchedd sy'n cwrdd â gofynion anghenion addysgol disgyblion er mwyn hybu eu datblygiad gwybyddol, emosiynol a chymdeithasol. Dysgu iddynt sgiliau ac egwyddorion a fydd yn eu galluogi i ddatblygu i fod yn aelodau llawn o gymdeithas yr ysgol a'r gymdeithas ehangach yn y dyfodol.
- Sicrhau bod anghenion addysgol arbennig plant yn cael eu hadnabod a'u hasesu.
- Ateb gofynion addysgol y plant drwy sicrhau fod y ddarpariaeth ar eu cyfer yn addas ac yn gwneud defnydd o adnoddau priodol.

### Amcanion

Mae'r amcanion canlynol yn egluro sut mae'r strwythur o fewn yr ysgol yn sicrhau fod y nodau uchod yn cael eu gweithredu.

- Bydd yr ALENCO yn cydweithio gyda'r Uwch Dîm Arwain i sicrhau fod yr amserlen ar gyfer disgyblion ac anghenion dysgu ychwanegol yn gytbwys ac yn rhoi cyfle iddynt ddatblygu sgiliau ar draws y cwricwlwm. Bydd y cwricwlwm yn addas i anghenion pob disgybl er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn medru profi llwyddiant.
- Bydd yr ALENCO yn codi ymwybyddiaeth athrawon pwnc am anawsterau addysgol, corfforol, emosiynol neu ymddygiadol disgyblion newydd drwy roi gwybodaeth amdanynt i bob adran. Felly bydd modd i'r athrawon a fydd yn eu haddysgu addasu eu dulliau o addysgu a /neu wahaniaethu eu hadnoddau ar lefel addas ar eu cyfer. Bydd y Cynorthwywyr Cynnal Dysgu (CCD) yn ymwybodol o anghenion y disgyblion yn eu gofal ac yn medru cynnal y plant er mwyn hybu eu dealltwriaeth o gynnwys eu gwersi. Byddant hefyd yn ymwybodol o'r Adnoddau sydd ar gael yn yr ysgol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Bydd yr ALENCO yn asesu a monitro disgyblion newydd i sicrhau bod y rhai ag anghenion yn cael eu rhoi ar gofrestr ADY yr ysgol ac yn derbyn y sylw priodol.
- Bydd yr ALENCO yn cynghori'r adrannau ar ddulliau ac adnoddau addas ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ac yn cyfrannu i raglen HMS yr ysgol mewn materion yn ymwneud ag ADY

## Adnabod, Asesu, Cofnodi a Chyfeirio

### Adnabod

Mae'n holl bwysig fod anawsterau disgyblion yn cael eu hadnabod cyn gynted a phosib. Yn bennaf, bydd yr ALENCO yn seilio ei hasesiad o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (a'r ddarpariaeth ar eu cyfer) ar wybodaeth flaenorol, a ddaw fel rheol drwy gyfrwng cyfarfodydd trosglwyddo cynradd/uwchradd. Bydd yr ALENCO yn cysylltu â'r ysgolion cynradd i gasglu gwybodaeth (yn ysgrifenedig ac ar lafar) am ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Bydd adolygiadau trosglwyddo yn cael eu cynnal yn ystod Blwyddyn 5 a 6 ar gyfer disgyblion sydd â Datganiad Anghenion Addysgol Arbennig.

### Asesu

Ar ddechrau Mis Medi bydd pob disgybl ym Mlwyddyn 7 yn cael ei asesu er mwyn dod o hyd i'r rhai sydd heb eu hadnabod yn eu hysgolion cynradd. Defnyddir profion safonol ar gyfer y broses o sgrinio darllen, sillafu a rhif. Mae marc penodol wedi ei bennu ar gyfer y broses o sgrinio a bydd pob disgybl sydd yn methu cyrraedd y sgôr penodedig yn derbyn sylw er mwyn gwella'i sgôr. Bydd ail asesiad ar ddiwedd pob blwyddyn ysgol yn mesur cynnydd pob disgybl ar y Gofrestr ADY.

**Cofnodi**

Lleolir y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ar Gofrestr AAA yr ysgol yn eu cyfnod priodol. Yn unol â Chòd ymarfer ADY Cymru, bydd yr ysgol yn ymateb i anghenion dysgu ychwanegol y disgybl ar y lefel briodol:

**<u>Gweithredu yn yr Ysgol (GY):</u>** mae'r ALENCO yn chwarae rhan flaenllaw wrth gasglu tystiolaeth a chydlynu'r ddarpariaeth yn yr ysgol.

**<u>Gweithredu Ysgol a Mwy (GYM):</u>** bydd y disgybl yn derbyn cefnogaeth arbenigwr, yn fewnol yn yr ysgol fel arfer neu o bosib drwy asiantaethau allanol.

**<u>Datganiad (D):</u>** yn dilyn Asesiad Statudol gan yr AALl, rhoddir gwybododaeth mewn Datganiad AAA ar anghenion y plentyn a'r ddarpariaeth ar gyfer ef/hi.

**Cyfeirio**

Bydd athrawon pwnc yn cyfeirio disgyblion at yr ALENCO yn ôl yr angen. Bydd yr ALENCO yn cyfeirio disgyblion at yr asiantaethau allanol priodol fel bo angen ac yn casglu tystiolaeth i gefnogi'r cyfeirio hwnnw.

## Adnoddau Dynol

**Rôl y Cydgysylltydd Anghenion Dysgu Ychwanegol**

- Cynllunio a chyd-gysylltu'r ddarpariaeth ADY yn CA3,4 a 5
- Rheoli gweithrediad y polisi o ddydd i ddydd
- Cydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion ychwanegol y plant a rheoli'r ymatebion i'r anghenion hynny.
- Cefnogi a chynghori cydweithwyr.
- Cynnal archwiliad blynyddol.
- Cynnal a chadw cofrestr ADY yr ysgol.
- Paratoi a diweddaru llawlyfr ADY a dosbarthu copi i bob Arweinydd Pwnc.
- Nodi enwau'r disgyblion galluog yn ôl y profion safonol h.y. y rhai ar y ddau ganradd uchaf.
- Cynnal adolygiadau blynyddol ar gyfer disgyblion sydd â Datganiad Anghenion Addysgol Arbennig
- Cyfrannu at gofnodion pob plentyn sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a rheoli'r cofnodion hynny.
- Rheoli'r broses sgrinio o fewn yr ysgol a chwblhau'r ddogfennaeth sydd yn ofynnol gan asiantaethau allanol a'r AALl.
- Gweithredu fel cyswllt rhwng rhieni a'r ysgol.
- Gweithredu fel cyswllt rhwng asiantaethau allanol a'r ysgol.
- Cynnal a chadw Adnoddau ac ystod o ddeunyddiau addysgu a fydd yn galluogi athrawon a'r CA i wneud y ddarpariaeth briodol.
- Paratoi a diweddaru'r Cynllun sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn (CCU)
- Monitro a gwerthuso'r ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol a chyflwyno adroddiadau i'r llywodraethwr sydd â chyfrifoldeb am anghenion dysgu ychwanegol
- Rheoli amrediad o adnoddau, yn ddynol a materol, sy'n gysylltiedig â phlant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- Hyrwyddo hunanddelwedd gadarnhaol y disgyblion.
- Hwyluso mynediad i'r cwricwlwm cyfan.
- Dyfeisio rhaglenni dysgu unigol sy'n ystyried anghenion unigol y disgybl.
- Cynorthwyo gyda threfniadau arholiad a rhoi cyngor arnynt.
- Cydweithio gyda'r Aseswr Arbenigol er mwyn sicrhau bod y Trefniadau Mynediad cywir mewn lle.
- Sicrhau bod ceisiadau yn cael ei gwneud i'r JCQ ar gyfer unrhyw ddisgybl sydd â'r hawl i Drefniadau Mynediad allanol.

**Rôl y Cynorthwywyr Addysgu.**

Mae'r Cynorthwywyr Addysgu yn ymwneud o ddydd i ddydd a chynnal disgyblion unigol neu grŵp sydd ân anghenion arbennig. Maen nhw'n gweithio gyda disgyblion sydd ag anawsterau llythrennedd a rhifedd sylfaenol a/neu anghenion synhwyrol, meddygol, emosiynol neu gymdeithasol. Gellir cynnal disgyblion sydd ag anawsterau llythrennedd trwy roi cymorth gyda dealltwriaeth, darllen, cofnodi gwaith neu rifedd.
Bydd y cynorthwywyr yn atebol i'r ALENCO ac i'r Aelod o'r Tîm Rheoli sydd â chyfrifoldeb am ADY. Mae eu dyletswyddau yn ymestyn tu hwnt i'r ystafell ddosbarth ac yn cynnwys:

- Cadw ffeiliau unigol y disgyblion yn eu gofal, yn drefnus a chyfredol.
- Cadw cofnodion am ddatblygiad a chynnydd y disgyblion ac unrhyw broblemau fydd yn codi.
- Cyflawni dyletswyddau fel maent wedi eu pennu gan yr ALENCO ac athro/athrawes dosbarth/pwnc – paratoi gwaith unigol neu wahaniaethol ar gyfer y disgybl, os bydd angen dan arweiniad yr ALENCO a'r athro/athrawes pwnc.
- Gweithio gyda'r disgyblion yn y modd a bennwyd ac adrodd nôl i'r ALENCO ynglŷn ag effeithiolrwydd y dulliau yma.
- Datblygu dealltwriaeth o anghenion disgyblion a'u dulliau o weithio.
- Cefnogi hunan-barch disgyblion.
- Bod o gymorth i unrhyw ddisgybl sydd angen cynhaliaeth o fewn y dosbarth.
- Mynychu cyfarfodydd os oes angen.
- Helpu gyda gwaith gweinyddol o fewn yr adran.
- Gwneud dyletswydd foreol adeg cyhoeddiadau gyda'r Penaethiaid Blwyddyn.
- Gweithredu fel aelod o staff o gwmpas yr ysgol, gan ymgymryd â rôl gyffredinol o ofal am y disgyblion, yr adeiladau a'r adnoddau.
- Bod yn barod i addasu a bod yn hyblyg o ran dyletswyddau a chyfrifoldebau fel y bo angen.
- Bod yn bresennol mewn sesiynau HMS ysgol gyfan.
- Sicrhau bod ceisiadau am gymorth oddi wrth adrannau neu athrawon yn derbyn sêl bendith ALENCO er mwyn sicrhau nad yw disgybl(ion) heb gefnogaeth.
- Cymryd rhan weithredol yn y cynllun Rheoli Perfformiad ar gyfer CCD.
- Codi unrhyw broblemau yn ymwneud a'r disgyblion, amserlen neu unrhyw faterion eraill sydd yn peri gofid yn y cyfarfodydd gyda'r ALENCO.

**Rôl y Llywodraethwyr.**

Rhaid i gorff llywodraethol yr ysgol sicrhau fod y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn ateb gofynion statudol Côd Ymarfer Cymru gan gynnwys y camau canlynol:

- Sicrhau bod y ddarpariaeth angenrheidiol ar gael i unrhyw ddisgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Sicrhau, lle mae'r AALl wedi hysbysu'r "person cyfrifol" (y pennaeth neu'r llywodraethwr priodol) fod gan ddisgybl anghenion dysgu ychwanegol, y bydd pawb sy'n debygol o'i addysgu yn derbyn gwybodaeth ynglŷn â'r anghenion hynny.
  Cyflwyno adroddiad blynyddol i rieni ar weithrediad polisi'r ysgol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol

**Cyllid**

Cynhelir archwiliad ADY yn flynyddol ac mae ariannu'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn seiliedig ar yr archwiliad hwn.

Bydd y pennaeth yn rhoi gwybod i'r corff llywodraethol am y modd y defnyddiwyd yr arian a ddyrannwyd ar gyfer cefnogi anghenion dysgu ychwanegol.

Bydd yr ALENCO yn gyfrifol am reolaeth weithredol yr adnoddau penodedig y cytunwyd arnynt er mwyn darparu ar gyfer anghenion addysgol arbennig yr ysgol.

## Gweithredu

**Gall y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol weithredu:**

- O fewn grŵp bach (tua deg disgybl).
- O fewn y brif-ffrwd gyda chynhaliaeth cynorthwyydd.
- Yn ystod y gwasanaeth boreol i'r disgyblion sy'n rhan o'r cynlluniau llythrennedd, llawysgrifen a rhifedd.
- Drwy osod rhai disgyblion mewn grŵp Astudiaethau Ffrengig os oes angen, er mwyn rhoi mynediad iddynt i Iaith Fodern, tra ar yr un pryd atgyfnerthu eu sgiliau sylfaenol.
- Drwy gyfnodau rheolaidd o dynnu allan o'r brif-ffrwd i weithio ar raglen unigol.
- Drwy wneud un opsiwn yn llai, ym Mlwyddyn 10 ac 11 mewn cytundeb gyda'r disgybl a'r rhieni.

**Polisi Gwaith Cartref**

Mae angen ystyried nifer o ffactorau wrth osod gwaith cartref i blant ag anghenion dysgu ychwanegol er mwyn sicrhau nad ydynt dan unrhyw anfantais sydd y tu allan i'w rheolaeth.

- Mae rhai disgyblion yn derbyn cymorth CA yn ystod eu gwersi yn yr ysgol ac mae gweithio heb gymorth wrth wneud gwaith cartref yn anodd iawn i rai disgyblion – gall rhieni fod o gymorth fan hyn ond bydd angen arweiniad arnynt yn y Trefnydd Personol. Mae'n bwysig trafod materion gwaith cartref gyda'r rhieni yn ystod y Noson Rieni.
- Mae'n bwysig bod tasgau gwaith cartref a osodir yn atgyfnerthu'r hyn a wnaed yn y wers.
- Rhaid sylweddoli nad yw pob disgybl sydd ag ADY yn mynd i fedru ymdopi i'r un graddau a'r tasgau a osodir i ddisgyblion y brif ffrwd. Gofynnir i adrannau i osod tasgau gwahaniaethol cymaint ag sy'n bosib neu dasgau sy'n addas i ymateb iddynt yn ôl lefel gallu.
- Mae disgyblion ADY yn ymdopi'n well gyda thasgau byr lle mae modd amrywio'r ffyrdd o ymateb – tynnu llun, ysgrifennu, tanlinellu ateb cywir.
- Mae defnyddio TGCh yn ffordd effeithiol o sicrhau taclusrwydd a chywirdeb gwaith gyda disgyblion sydd ag ADY – mae modd i'r disgyblion ddefnyddio peiriannau yn y Clwb Gwaith Cartref neu yn y llyfrgell yn ystod yr awr ginio os nad oes cyfleusterau TGCh ar gael yn y cartref.

## POLISI SGILIAU SAFONEDIG YR ADRAN ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Mae'r adran yn ymrwymo i gynnig cyfle cyfartal i bob disgybl i ddatblygu ei sgiliau rhifedd a llythrennedd yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Anelwn i wneud hwn trwy:

- ddarganfod lefel cyrhaeddiad pob disgybl yn y sgiliau hyn ar ddechrau Blwyddyn 7.
- fonitro cynnydd pob disgybl sydd ar y Gofrestr ADY yn flynyddol
- ddadansoddi canlyniadau'r *Cognitive Ability Tests (CAT)*
- wneud profion diagnostig gyda rhai unigolion
- redeg Gweithdai Sillafu a Darllen
- gynhyrchu CCU ar gyfer pob disgybl sydd ar y Gofrestr ADY
- rannu gwybodaeth gyda staff addysgu
- gysylltu ag asiantaethau allanol
- gynnal disgyblion mewn gwersi
- sicrhau bod cynrychiolydd o'r adran yn mynychu ystod o weithgorau

**Darganfod lefel cyrhaeddiad pob disgybl yn y sgiliau safonedig ar ddechrau Blwyddyn 7**

Gwneir hwn trwy brofi pob disgybl ar ddechrau Blwyddyn 7 yn y meysydd canlynol:

| | |
|---|---|
| Dealltwriaeth Cymraeg | Prawf Cymru Gyfan |
| Dealltwriaeth Saesneg, Llawysgrifen a Chyflymderau Teipio | Lucid Exact |
| Sillafu Cymraeg | Profion Glannau Menai |
| Sillafu Saesneg | Single Word Reading Test (NFER) |
| Gallu Gwybyddol | Cognitive Ability Tests |

**Monitro cynnydd pob disgybl sydd ar y Gofrestr ADY yn flynyddol**

Gwneir yr un profion safonedig er mwyn monitro cynnydd unigolion sydd ar y Gofrestr ADY. Mae'r Cydgysylltydd ADY yn dadansoddi'r canlyniadau er mwyn penderfynu os oes angen ychwanegu enwau disgyblion at, neu dynnu disgyblion oddi ar y Gofrestr ADY. Gall uniaethu unigolion sydd angen cymorth pellach hefyd.

Gellir tynnu disgyblion oddi ar y gofrestr ADY neu eu hychwanegu i'r Gofrestr yn dilyn trafodaeth gyda'r athrawon pwnc.

**Dadansoddi canlyniadau'r Cognitive Ability Tests (CAT)**

Gwneir hyn er mwyn uniaethu unrhyw ddisgybl sydd angen cynhaliaeth/profion diagnostig pellach ac er mwyn ystyried anghenion disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4 gan fod CAT yn rhagfynegi graddau CA3 a TGAU.

**Profion diagnostig unigolion**

Cyfeirir disgybl at yr Adran ADY mewn sawl ffordd:
- Gwybodaeth o'r ysgolion cynradd ar ddiwedd Blwyddyn 6
- Canlyniadau asesiadau llythrennedd, rhifedd a gwybyddol uchod
- Sylwadau athrawon
- Dymuniad rhieni

Mae nifer o brofion diagnostig ar gael sy'n helpu darganfod cryfderau ac anghenion disgybl. Defnyddir y canlyniadau i:
- gynnig gweithdai llythrennedd i ddisgyblion Bl.7/8
- argymell strategaethau addas i athrawon sy'n dysgu'r disgybl/rhieni
- gynnig gwersi ychwanegol i'r disgybl am gyfnod byr er mwyn cryfhau sgiliau sylfaenol
- gynnig am drefniadau mynediad ar gyfer arholiadau allanol

Mae'r profion yn cynnwys:

Prawf Glannau Menai
Dyslexia Screening Test a Dyslexia Portfolio
York Assessment of Reading Comprehension
Diagnostic Reading Analysis
WIAT II
DASH (Llawysgrifen)

**Gweithdai Sillafu a Darllen**

Hyfforddwyd nifer o Gynorthwyydd Addysgu ar Raglenni llythrennedd amrywiol, sy'n hybu sgiliau darllen a sillafu disgyblion. Mae nifer o ddisgyblion CA3 yn dilyn y rhaglenni hyn yn ystod Gwasanaeth Ysgol.

**Cynlluniau sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn**

Sylfaen unrhyw gynllun person ganolog yw'r disgybl. Trwy ystyried cwestiynau allweddol ynghylch eu cryfderau, arddulliau dysgu a dulliau dewisol o gefnogaeth, caiff proffil ei greu. Gwahoddir rhieni ac athrawon i gyfrannu at y broses.

Gall pob athro weld y CCU ar fewnrwyd yr ysgol a gosodir targedau, yn seiliedig ar yr wybodaeth sy'n gynwysiedig yn y proffil. Caiff y rhain eu hadolygu bob 6 mis.

**Rhannu gwybodaeth gyda staff addysgu**

- Mae'r canlyniadau'r profion safonedig ar gael i bob aelod o staff ar ryngrwyd fewnol yr ysgol. Dangosir canlyniadau ar gyfer pob blwyddyn mae disgybl wedi bod yn yr ysgol.
- Mae CGADY yn rhoi gwybodaeth i staff addysgu mewn sesiynau HMS, cyfarfodydd adeg gwasanaeth ysgol a chyfarfodydd Adran.
- Cyfeirir staff enwau disgyblion sy'n achosi pryder at y CGADY gan amlinellu natur eu hanawsterau.
- Mae llyfrgell yn yr Adran ADY sy'n cynnwys llyfrau ar destunau megis *Dyslecsia, Dyspracsia, ADHD, Anhwylderau Sbectrwm Awtistiaeth* ayyb. Mae croeso i unrhyw aelod o staff i'w defnyddio.
- Mae ffeil ar bob disgybl sydd ar y Gofrestr ADY, sy'n cynnwys manylion am ei brofion sgiliau safonedig, copïau o bob CCU ac unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol i'r disgybl. Cedwir y ffeiliau dan glo, ond mae'r wybodaeth ar gael i bob aelod o staff.

**Cysylltu ag asiantaethau allanol**

Mae CGADY yn trafod anghenion disgyblion gyda'r asiantaethau canlynol:

- Seicolegydd Addysgol
- Therapydd Lleferydd / Therapydd Galwedigaethol / Ffisiotherapydd
- Gwasanaethau Nam ar y Synhwyrau
- Gwasanaethau Meddygol
- Gwasanaeth Cymdeithasol

Yn aml, bydd Pennaeth Blwyddyn, Cynorthwyydd Addysgu neu athro pwnc yn bresennol yn ystod y drafodaeth.